

PWYLLGOR DATHLU ACHUB LLANGYNDEYRN A CHWM GWENDRAETH FACH

**Cynhaliwyd y Cyfarfod yn Nhafarn y Gof, Llangyndeyrn
19feg o Ebrill 2012 am 7.30 y.h.**

Presennol	Diana Thomas-Laidlaw – Ysgrifenydd John Thomas - Cyd-Gadeirydd David Thomas- Cyd-Gadeirydd Christopher Smith - Trysorydd Tyssul Evans – Cynghorwr Sir Sulwyn Thomas Jayne Brodrick- Ysgol y Fro T.J.Arwyn Richards	Mary Pugh Einir Griffiths Hugh Williams Robert Thomas Gwydion Wynne Marc Jones Elin Jones Ian Jones
Ymddiheuriadau am Absenoldeb	Ann Richards Brendan Griffiths Peter Jones	

Gweithredu

MATERION YN CODI AC AGENDA.

1. Gwnaeth John Thomas groesawu pawb i'r cyfarfod.
2. Cywirdeb Cofnodion y cyfarfod blaenorol (22.3.2012)

Cadarnhawyd fod pawb wedi derbyn y copiau o gofnodion y cyfarfod blaenorol a ddanfonwyd trwy e.bost gan Diana. Gwnaeth Rob ac Ian gynnig ac eilio eu bod yn gywir.

3. Cyflwynodd Hugh Williams £20 mewn arian i'w roi yng nghyfrif banc y Pwyllgor Dathlu. Derbyniodd yr arian wrth "Grwp Hanes Pontiets" ar ôl iddo fod yn siarad am yr ymgyrch yn erbyn boddi Llangyndeyrn a Chwm Gwendraeth Fach. Trosglwyddwyd yr arian i Christopher.

4. Gwydion Wynne – yn cyflwyno'r wefan "Llangyndeyrn.org"

Gwnaeth Gwydion ddangos y wefan a sefydlwyd ganddo – mae'r wefan bellach yn "fyw." Cytunodd pawb fod y wefan yn wych. Cytunodd pawb y dylai Gwydion dderbyn £30 o gyfrif banc y Pwyllgor Dathlu oherwydd gwnaeth dalu £30 ei hun am brynu'r hawlfraint i "Llangyndeyrn.org." Gofynnodd Rob os oedd grantiau ar gael ar gyfer sefydlu gwefannau.

Nododd Gwydion ei fod yn bwriadu siarad a Hugh ac Arwyn er mwyn cael enwau rhai unigolion sydd a lluniau o'r ymgyrch, er mwyn iddo fedru ymweld a nhw i

sganio'r lluniau a'u gosod ar y wefan. Gan bod gan Gwydion beiriant sganio sy'n gallu sganio dau gant o luniau mewn dau gant eiliad gallai ymweld a phobl gan sganio lluniau yn y fan a'r lle, yng nghartrefi pobl. Awgrymodd y gallai sganio lluniau adeg y noson "Gaws a Gwin." Nodwyd bod Brendan eisoes wedi ysgrifennu i'r Journal i hysbysebu'r "Noson Gaws a Gwin", ac awgrymwyd y gellid ychwanegu apêl am luniau cyn iddo fynd i brint.

5. Cais am arian wrth y Cyngor Cymuned.

Cadarnhaodd Diana Thomas-Laidlaw ei bod wedi danfon llythyr at y Cyngor Cymuned yn gwneud cais am arian i'n cynorthwyo i drefnu dathliadau 2013. Gwnaeth Tyssul Evans gyhoeddi bod y cais wedi bod yn llwyddiannus, a bod y Cyngor Cymuned yn rhoi rhodd o £2,000 i'r Pwyllgor Dathlu. Gwnaeth Tyssul ac Arwyn Richards gyflwyno'r siec i aelodau'r "Pwyllgor Dathlu." Trosglwyddwyd y siec i Christopher. Diolchwyd i Tyssul Evans ac Arwyn Richards (fel aelodau o'r Cyngor Cymuned) am rodd mor hael.

6. Y Noson Gaws a Gwin – 28.4.2012.

Dywedodd John Thomas ei fod wedi sicrhau bod cwmni "Castell Hywel" yn noddi'r Noson Gaws a Gwin (Maent wedi rhoi ugain o foteli o win gwyn ac ugain o foteli o win coch). Felly ni fydd angen i'r Pwyllgor dalu am y caws a'r gwin hyn ar gyfer y noson. Bwriedir prynu peth gwin "rose". Hefyd bydd y gwydrau ar gyfer y gwin yn cael eu hurio o "Morrisons."

Dywedodd Einir Griffiths byddai gwirfoddolwyr yn mynd i Neuadd yr Eglwys erbyn 2.00 y.p. dydd Sadwrn (28.4.2012) i drefnu'r neuadd ar gyfer y noson. Gall unrhyw un sy'n awyddus i helpu ddod i gynorthwyo.

Sulwyn Thomas fydd yn arwain y noson. Cadarnhaodd Sulwyn bod cwmni "Telesgop" yn mynd i ddechrau ffilmio yno, gyda'r nod o gydweithio gyda S4C i gynhyrchu rhaglen ar y dathliadau hanner can mlwyddiant.

Cafwyd trafodaeth o sut i strwythuro'r noson, ac fe gytunwyd i ddangos y rhaglen deledu/ffilm yn gyntaf, yna i gael hoe, yna i gael y sesiwn holi cwestiynau i aelodau'r panel (Hugh Williams, Arwyn Richards, Meurig Voyle, Harri Lloyd a Basil Philips), ac yna i ddangos y wefan "Llangyndeyrn.org". Cadarnhaodd Mrs. Brodrick bod disgyblion yr ysgol eisoes wedi paratoi cwestiynau. Cadarnhawyd bod y cyfiethydd ar y pryd (Mr. Tudur Jones) yn medru bod yn bresennol, a dywedodd Einir bod Menter Cwm Gwendraeth wedi rhoi menthyg yr offer gwrando ar gyfer y system cyfieithu ar y pryd.

Dywedodd Einir bod croeso i bobl roi gwobrau ar gyfer y raffl.

7. Ymateb Aneurin Jones.

Gwnaeth John adrodd yn ôl. Dywedodd iddo gael gwybod y byddai llun olew gan Aneurin (o'r maint y cytunwyd arno'n flaenorol) yn costio rhwng £2,000 ac £8,000. Dywedodd sawl un bod y pris hwn yn mynd i fod yn ormod – bod rhaid bod yn realistig. Atgoffwyd pawb taw pris Mark Cox oedd £400, a taw pris Diane Mathias ydoedd £850.

Cafwyd trafodaeth o'r mater, ac yna cafwyd pleidlais. Cytunodd pawb y dylid

<p>cynnig y gwaith i Mark Cox. Cytunwyd y dylai John gysylltu ag Aneurin i drosglwyddo penderfyniad y Pwyllgor.</p>	<p>J.T.</p>
<p>8. <u>Adrodd yn ôl wrth yr Is-bwyllgor Cyllid/ gwneud cais am Grantiau –</u></p> <p>Dywedodd Christopher ei fod wedi cysylltu a David Saywell o Fenter Cwm Gwendraeth, a'i fod yntau wedi cysylltu gyda'r Cyngor Sir i weld pa grantiau y gallem wneud cais amdanynt. Dywedodd Christopher y byddai'n cwrdd gyda David Saywell a Meinir Griffiths wythnos nesaf i drafod y sefyllfa.</p> <p>Nodwyd bod Brendan yn gwneud ymholiadau am "Grantiau Lottery", soniodd Ian am y "Community Events and Festivals Grant" – sy'n talu uchafswm o £3,000. Soniwyd am yr "Heritage Lottery Grant," sy'n talu uchafswm o £30,000. Byddai gwneud cais am hwn yn addas ar ein cyfer, mwy na thebyg – dylid edrych ar y meini prawf yn ofalus.</p> <p>Nodwyd eto bod Brian Thomas yn awyddus i wneud cais am y grant "Widening Access." Cytunodd pawb y dylai Brian Thomas fwrw ymlaen i wneud y cais am hwn. Cytunodd John i gysylltu ag ef. Dywedwyd hefyd bod gan Brian Thomas gysylltiadau gyda chwmmi a all osod lluniau digidol ar blatiau.</p> <p>Nodwyd y dylai Christopher drefnu cyfarfod yn fuan gyda Rob, John, David, Ian a Diana i drafod sefyllfa'r grantiau.</p> <p>Nododd Christopher hefyd ei fod wedi ceisio cysylltu gyda swyddog o'r "Gronfa Ray Gravell" – ond bod y person hynny ar wyliau ar y pryd.</p>	<p>C.S.</p> <p>J.T.</p> <p>C.S.</p>
<p>9. <u>U.F.A.</u></p> <p>Gwnaeth Ian Jones gadarnhau unwaith yn rhagor ddyddiadau teithiau beicio 2012 a 2013, gan bwysleisio bod croeso i unrhyw un sy'n awyddus i gymryd rhan i gysylltu ag ef. Pwysleisiwyd bod y daith feicio yn agored i bawb. Nodwyd y gobeithir nodd i taith feicio 2013.</p> <p>Gwnaeth Gwydion nodi ei fod yn barod i dderbyn erthyglau i'w mewnbynnu i wefan "Llangyndeyrn.org"</p> <p>Nododd yr Is-bwyllgor Cyhoeddusrwydd eto y byddai cwmni "Telesgop" yn bwriadu ffilmio adeg y Noson Gaws a Gwin, ac adeg gweithgareddau eraill a drefnwyd gennym, er mwyn medru creu rhaglen ar y dathliadau hanner can mlwyddiant. Trafodwyd rhai syniadau posibl eraill i greu cyhoeddusrwydd, e.e. tynnu llun dramatig o'r holl bobl a fu'n gysylltiedig ag ymgyrch 1963 o fan uchel, neu o hofrennydd; cynnal Pasiant yn y pentref (yn yr awyr agored, e.e. ger y gwahanol glwydi) yn hytrach nag yn Neuadd yr Eglwys. Pasiant go iawn fyddai hwn, gyda sgrïpt broffesiynol.</p>	
<p>10. <u>Dyddiad y cyfarfod nesaf</u></p> <p>Cynhelir y cyfarfod nesaf o'r pwyllgor hwn ar Nos Iau 31ain o Fai 2012 am 7.30 y.h. yn nhafarn Y Ffermwyr, Llangyndeyrn.</p>	

11. Bydd copi Saesneg o'r munudau hyn ar gael yn y cyfarfod nesaf i'r rhai fydd yn awyddus i'w derbyn.

Diana Thomas-Laidlaw (Ysgrifenyddes y Pwyllgor Dathlu Achub Llangyndeyrn a Chwm Gwendraeth Fach.)
